

Pwysigrwydd cefnogi plant a'u teuluoedd gyda anghenion dysgu ychwanegol mewn addysg

(Ffynhonnell: Facebook, 2017)



Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn gytundeb rhyngwladol sydd yn nodi hawliau plant. Mae wedi'i greu o 54 erthygl, y 42 cyntaf yn amlinellu'r hawliau sydd gan blant, ambell waith ceir ei adnabod fel y 3 P; darparu (provision), amddiffyn (protection) a chymryd rhan (participation). Gyda erthyglau 43-54 yn egluro sut dylai'r Llywodraethau ac oedolion cydweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod plant yn elwa o'r hawliau uchod. Mae gan blant a phobl ifanc 18 oed ac iau'r hawl i fod yn ddiogel, i chwarae, i gael addysg, i fod yn iach a bod yn hapus. Yn 2004, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru'r UNCRC yn ffurfiol fel sail llunio polisi yn ymwneud â phlant a phobl ifanc. (UNICEF, dim dyddiad) Nod y papur briffio yma yw rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gydag ymarferwyr sydd yn cydweithio efo plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'i theuluoedd.

Erthygl 2: mae gan blant yr hawl i amddiffyn rhag gwahaniaethu, waeth beth fo'u lliw, rhyw, crefydd neu anabledd (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiad)

Yn ôl Comisiynydd Plant Cymru (2017) golygir cydraddoldeb bod gan bob plentyn cyfleoedd cyfartal i wneud y gorau o'u bywydau a'u doniau, nodir ni ddylai unrhyw blentyn ddioddef cyfleoedd bywyd gwael oherwydd gwahaniaethu. Mae cydraddoldeb yn cynnwys trin pob plentyn yn deg, a darparu cyfleoedd ac adnoddau iddynt yn unol â'u hanghenion, yn gyfartal ag eraill, gan sicrhau eu bod yn gallu datblygu hyd eithaf eu potensial.

Mae dogfen yr United Nations Convention on the rights of persons with disabilities (UNCRPD) yn cynnwys 50 erthygl i amddiffyn hawliau plant anabl. Mae erthygl 5 yn nodi bod pawb yn gyfartal o ran y gyfraith, pwysigrwydd gwahardd gwahaniaethu oherwydd anabledd a gwarantu amddiffyniad cyfreithiol cyfartal. (United Nations, dim dyddiad)

Dywed Llywodraeth Cymru (2016) pwrpas y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yw sicrhau bod dinasyddion y DU yn cael eu trin yn deg, ddim yn cael eu gwahaniaethu a bod ganddynt yr un cyfleoedd yn fywyd. Pwrpas y ddeddf yw amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu. Nodir yn adran 149 o'r ddeddf pwysigrwydd awdurdodau yn rhoi sylw yn benodol i ddileu gwahaniaethu ac erledigaeth ac i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb (Llywodraeth Cymru, 2011).

Gweler pwyslais enfawr ar amcan cydraddoldeb o fewn Deddf Llesiant Cenhedlaeth y Dyfodol (Cymru) 2015. (Llywodraeth Cymru, 2015)

Erthygl 12: Mae gan bob plentyn yr hawl i gymryd rhan yn gwneud penderfyniadau, cynllunio ac adolygu unrhyw gamau a allai effeithio arnynt. (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad)

Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau er fudd gorau plentyn, y peth gorau gellir gwneud yw gofyn ac ymgynghori a'r plentyn. Pwysleisiwyd UNICEF (2019) pwysigrwydd gwrando ar farn plant a'i ystyried o ddifrif. Nodwyd Landsdown (2011) o fewn addysg dylai plant cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'u haddysg, gallu cymryd rhan mewn cynghorau ysgolion democrataidd, i addysgeg gyfranogol lle gall plant gymryd rhan weithredol yn eu haddysg a chyfrannu at ddatblygiad polisi a deddfwriaeth addysg.

Yn 2001, benodwyd Comisiynydd Plant yng Nghymru, y genedl gyntaf i wneud hyn. Nodwyd Comisiynydd Plant Cymru (dim dyddiad) fel rhan o'u rôl mae ganddynt dyletswydd i hyrwyddo hawliau plant, sicrhau bod y Llywodraeth a sefydliadau eraill yn parchu rhain a sicrhau bod plant yn ymwybodol o'r hawliau sydd ganddynt. Dywed Thornton a Brunton (2007) bod angen oedolion sydd yn gwrando ar lais y plentyn yn ofalus er mwyn i'r plant datblygu ymhellach.

Mae dull Reggio Emilia yn arddangos plant yn arwain dysgu eu hunain, yn ogystal nodir bod ganddynt hawliau yn hytrach nag anghenion gan ei fod yn cael ei weld fel aelodau cymwys o gymdeithas. (Nutbrown, 2012)

Erthygl 23: mae gan bob plentyn ag anabledd, naill ai'n gorfforol neu'n feddyliol, yr hawl i ofal ac addysg arbenigol i'w helpu i ddatblygu ac arwain bywyd llawn (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiad)

Yn benodol, mae erthygl 23 yn ymwneud a phlant anabl, mae'n cydnabod eu bod nhw'n agored i wahaniaethu. (Centre for Studies on Inclusive Education, 2020) Dywed Children & Young people's Commissioner Scotland (dim dyddiad) mae gan blant yr hawl i fod yn ddiogel ac yn hapus, os mae ganddynt anabledd ni ddylai hyn cael effaith ar yr hawl yma. Dylid gofalu am blant a phobl ifanc mewn ffordd sy'n ystyried unrhyw anableddau sydd ganddynt, a dylid eu haddysgu yn yr ysgol mewn ffordd sy'n deall eu hanabledd. Ni ddylai unrhyw un atal pobl anabl rhag gwneud pethau maent am wneud a ni ddylai unrhyw un ceisio dileu eu hawliau.

Nodir Erthygl 7 o'r UNCPRD mae gan blant ag anableddau'r hawl i fynegi eu barn ar unrhyw faterion sydd yn eu heffeithio. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried eu hoedran a'u cam ddatblygiad yn gyfartal efo'r plant eraill. Rôl yr oedolyn yma yw sicrhau ei bod yn darparu cymorth priodol i'r unigolyn a sicrhau bod yr hawl yma'n cael ei chadarnhau. (UNCPRD, dim dyddiad).

Mae'n bosib i'r unigolyn angen tîm amlddisgyblaethol, er enghraifft; gweithwyr cymdeithasol, therapyddion iaith, seicolegwyr addysg a chydgyssylltwyr anghenion addysgol arbennig. Mae'n hollbwysig bod y partneriaethau yma yn rhai effeithiol er mwyn i blant cael y gorau o'u haddysg gynnwys a chyrraedd y lefelau datblygu disgwyledig. (Kelly, 2016) Gellir gosod targedau mewn Cynlluniau addysg unigol wedi derbyn cyngor wrth holl weithwyr allweddol yr unigolyn, mae'n bwysig i'r ymarferwyr sicrhau cydraddoldeb addysg yn ogystal â chyfluoedd i blant ag anghenion ychwanegol. (National Autistic Society, dim dyddiad)

Mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Addysg Leol i nodi, asesu, ffurfio a chynnal Datganiad o anghenion. Mae hyn yn sicrhau bod ffocws ar ddiagnosis meddygol plant, ond hefyd yn rhoi pwyslais ar anghenion, dymuniadau a safbwyntiau unigolion

Erthygl 28: Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad)

"Children and young people have the right to receive a quality education. This means that children and young people should be able to attend school (or another place of learning), learn, and be treated well when they are being educated." (Children's Rights Wales, 2016)

Estyn yw arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, maent yn archwilio a rheoleiddio lleoliadau addysg yng Nghymru, trwy hyn maent yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysg ac yn sicrhau bod y rheoliadau yn cael ei dilyn yn gywir. (Estyn, 2020) Caiff erthygl 28 ei gefnogi gan Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (2015), nodir dylai plant cael ystod eang o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu. Mae'n hollbwysig i'r lleoliad dilyn y fframwaith gan ei fod yn nodi addasiadau gellir ei wneud i blant ag anableddau megis; gwella mynediad i'r cwricwlwm gwneud gwelliannau ffisegol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg a darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.

Yn debyg mae'r ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' hefyd yn cefnogi'r erthygl, dywed fydd y cwricwlwm newydd yn sicrhau bod y disgyblion yn profi pob mantais o addysg gynradd. Nodir ei fod yn berthnasol i bob plentyn beth bynnag eu galluoedd, y bwriad yw creu cyfleoedd a fydd yn galluogi iddynt elwa wrth nifer o brofiadau gwahanol. (Donaldson, 2015) Dywed Llywodraeth Cymru (2015) o fewn pedwar diben y cwricwlwm i Gymru bydd y plant a phobl ifanc yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n diwygio deddfwriaeth er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc a'u hawliau o fewn addysg, fe fydd y bil ADY newydd yn amddiffyn unigolion nes eu bod nhw'n 25 blwydd oed, yn wahanol i'r oedran gwreiddiol o 19. Bydd y bil yn cryfhau'r amddiffyniad hawliau ac ansawdd gofal fydd ar gael yn ystod arddegau newid o'r ysgol i addysg bellach. Yn ychwanegol cyd Cynlluniau Datblygu Unigol yn disodli datganiadau a bydd y plentyn, y teulu a gweithwyr proffesiynol eraill yn cydweithio ar rain. (Llywodraeth Cymru, 2020)

Pwysleisia Deddf Addysg 2002 (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad) pwysigrwydd diogelwch plant Cymru a'r hawliau sydd ganddynt i gael popeth sydd eu hangen mewn bywyd gan gynnwys yr hawl i addysg. Cytuna Deddf addysg 2011 (Gov.UK, 2011) gyda hyn hefyd.

Rhestr Cyfeirnodï Papur Briffio:

ALN Cymru. (2017) *Facebook*. Ar gael o: <https://www.facebook.com/cymrualn/photos/a.126121841104095/384633161919627-> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Centre for Studies on Inclusive Education. (2020) *The UN Convention on the rights of the child*. Ar gael o: <http://www.csie.org.uk/inclusion/child-rights.shtml> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Children & Young People's Commissioner Scotland. (dim dyddiad) *UNCRC Simplified Articles*. Ar gael o: <https://cypcs.org.uk/rights/uncrc/articles/article-23/> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Comisiynydd Plant Cymru. (2017) *The Right Way: A Children's Rights Approach in Wales*. Ar gael o: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/The-Right-Way.pdf> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Comisiynydd Plant Cymru. (dim dyddiad) *The Commissioner*. Ar gael o: <https://www.childcomwales.org.uk/about-us/the-commissioner/> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Comisiynydd Plant Cymru. (dim dyddiad) *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – Testun Llawn*. Ar gael o: <https://www.complantcymru.org.uk/confensiwn-y-cenhedloedd-unedig-ar-hawliau-plentyn-testun-llawn/> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Comisiynydd Plant Cymru. (dim dyddiad) *CCUHP*. Ar gael o: <https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ccuhp/> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Ar gael o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

ESTYN. (2020) *Amdanom ni*. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni?_ga=2.165462975.1448026453.1620043180-1095116752.1593084526 (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Gov.UK. (2011) *Education Bill Receives Royal Assent*. Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/news/education-bill-receives-royal-assent> (Darllenwyd: 9fed Mai 2021)

Lansdown. (2011) *Every Child's Right to be Heard*. Ar gael o: https://www.unicef.org/files/Every_Childs_Right_to_be_Heard.pdf (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Llywodraeth Cymru. (2011) *The Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011*. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/pdfs/wsi_20111064_mi.pdf (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Llywodraeth Cymru. (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Ar gael o: <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Llywodraeth Cymru. (2015) *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/api/storage/4f222e31-85c2-407b-9760-5ed8bd0b9e48/fframwaith-y-cyfnod-sylfaen.pdf> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Llywodraeth Cymru. (2015) *Pedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael o: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/the-four-purposes-of-the-curriculum-for-wales.pdf> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Llywodraeth Cymru. (2016) *Equal Wales: Making Wales a Fairer place to live and work*. Ar gael o: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/equality-plan-and-objectives-easy-read.pdf> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Llywodraeth Cymru. (2020) *Additional Learning Needs (ALN) Transformation Programme*. Ar gael o: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-09/additional-learning-needs-aln-transformation-programme-guide.pdf> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Llywodraeth Cymru. (dim dyddiad) *An Introduction to the United Nations Convention on the Rights of the Child*. Ar gael o: <https://gov.wales/sites/default/files/inline-documents/2021-03/childrens-rights-booklet.pdf> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Llywodraeth Cymru. (dim dyddiad) *Rôl Pob Un Ohonom Ni Dan Ddeddf Addysg 2002*. Ar gael o: <file:///C:/Users/DSG/Downloads/010318-polisi-canllawiau-diogelu-disgyblion.pdf> (Darllenwyd: 9fed Mai 2021)

National Autistic Society. (dim dyddiad) *Individual Education Plans*. Ar gael o: <https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/topics/education/extra-help-at-school/northern-ireland/individual-education-plans#:~:text=An%20IEP%20is%20a%20document,SEN%20if%20they%20have%20one>. (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Nutbrown, C. (2012) *Key Concepts in Early Years Childhood Education and Care 2nd Ed*. London: SAGE Publications Ltd.

Thornton, L. A P, Brunton. (2007) *Bringing the Reggio approach to your early years practice*. Routledge: London.

United Nations. (dim dyddiad) *About us*. Ar gael o: <http://www.un.org/en/sections/about-un/overview/index.html> (Darllenwyd 3ydd Mai 2021)

United Nations. (dim dyddiad) *The Convention in Brief*. Ar gael o: <https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities/the-convention-in-brief.html> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities. (dim dyddiad) *Article 7: Children with Disabilities*. Ar gael o: <https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities/article-7-children-with-disabilities.html> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

UNICEF. (dim dyddiad) *What is the UNCRC?* Ar gael o: <https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Kelly. (2016) *Why parent partnerships are so important*. Ar gael o: <https://www.earlyyearscares.com/eyc/early-years-practice/parent-partnerships-important/> (Darllenwyd: 3ydd Mai 2021)

Rhestr Cyfeirnod Cyflwyniad:

Athey, C. (2007) *Extending Thought in Young Children: a parent-teacher partnership*. (2nd Edition). London: Paul Chapman.

Children's Workforce Development Council. (dim dyddiad) *The Common Core of Skills and Knowledge*. Ar gael o: https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/309880/mod_resource/content/0/Common%20core%20of%20skills%20and%20knowledge%20for%20the%20childrens%20workforce.pdf (Darllenwyd: 10fed Mai 2021)

Department For Education. (2017) *Statutory Framework for The Early Years Foundation Stage*. Ar gael o: https://www.foundationyears.org.uk/files/2017/03/EYFS_STATUTORY_FRAMEWORK_2017.pdf (Darllenwyd: 10fed Mai 2021)

Laurie. (2018) *Why is Occupational Therapy Important for autistic children?* Ar gael o: <https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/professional-practice/occupation-therapy#:~:text=In%20the%20case%20of%20autism,the%20child's%20sensory%20processing%20disorders>. (Darllenwyd: 12fed Mai 2021)

Learning and Teaching Scotland. (2006) *The Reggio Emilia Approach to Early Years Education*. Ar gael o: https://education.gov.scot/improvement/documents/elc/elc35_reggioemilia/elc35_reggioaug06.pdf (Darllenwyd: 10fed Mai 2021)

Llywodraeth Cymru. (2016) *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir I Blant hyd at 12 oed*. Ar gael o: <https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf> (Darllenwyd: 10fed Mai 2021)

Llywodraeth Cymru. (2017) *Foundation Phase Profile Handbook*. Ar gael o: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/foundation-phase-profile-handbook-revised-september-2017.pdf> (darllenwyd: 10fed Mai 2021)

Llywodraeth Cymru. (2018) *Additional Learning Needs (ALN) Transformation Programme*. Ar gael o: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/additional-learning-needs-aln-transformation-programme-v2.pdf> (Darllenwyd: 10fed Mai 2021)

Llywodraeth Cymru. (2018) *Draft Additional Learning Needs Code for Wales*. Ar gael o: https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/419814/mod_resource/content/1/draft-additional-learning-needs-code-for-wales_0.pdf (Darllenwyd: 10fed Mai 2021)

Neaum. (2016) *Observing and Assessing Children's Learning and Development*. Ar gael o: <https://study.sagepub.com/sites/default/files/Neaum%2C%20S.%20%282016%29%20Observing%20and%20Assessing%20Children%27s%20Learning%20and%20Development.%20London%2C%20Sage..pdf> (Darllewnyd: 10fed Mai 2021)

Reeve. (2015) *The Role of SENCO: What do you need to know?* Ar gael o: <https://www.specialneedsjungle.com/the-role-of-the-senco-what-do-you-need-to-know/> (Darllenwyd: 10fed Mai 2021)

Tovey, H. (2013) *Bringing the Froebel approach to your early years practice*. Routledge: London.